# Pennaeth Addysg (dros dro)
# Head of Education (interim)
Owen Owens


Gofynnwch am / Ask for: **Owen Owens**
☎ (01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref: **OO**
(01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
owenowens@gwynedd.gov.uk


12 Rhagfyr 2014

**At benaethiaid a chadeiryddion cyrff llywodraethu ysgolion cynradd Gwynedd**

Annwyl Bennaeth a Chadeirydd Y Llywodraethwyr

**Par: Gwasanaeth Gwybyddiaeth a Dysgu**

Byddwch yn ymwybodol bod y Cyngor yn cynnal Adolygiad Strategol o Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), ynghyd â pharatoi ar gyfer newid mewn deddfwriaeth yn y dyfodol agos. Er mwyn cynllunio a pharatoi ar gyfer hyn yn ystod 2015/16 bwriedir cyflwyno i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ym mis Ionawr 2015 ein bwriad fel Awdurdod i beidio â datganoli cyllid 'Gwasanaeth Gwybyddiaeth a Dysgu' i'n hysgolion o Ebrill 2015 ymlaen.

Yn ystod 2015/16 bwriedir adolygu'r Gwasanaeth tra yn parhau i gefnogi ysgolion, ond heb y biwrocratiaeth sydd ynghlwm â'r CLG presennol.

Y drefn bresennol:

- Sefydlwyd y Tîm Gwybyddiaeth a Dysgu yn dilyn ail strwythuro'r gwasanaeth ar gyfer cefnogi'r ysgolion yn y maes gwybyddiaeth a dysgu.
- Mae'r gyllideb wedi'i datganoli i'r ysgolion cynradd ac mae'r awdurdod yn cynnig y ddarpariaeth i bob ysgol drwy Gytundeb lefel Gwasanaeth (CLG)
- Yn y 2 flynedd ddiwethaf mae nifer o ysgolion wedi dewis peidio prynu'r gwasanaeth yma drwy CLG ac yn darparu'r gwasanaeth eu hunain – am nifer o resymau.

Yr achos dros newid

- Strategaeth ADY newydd ynghyd â gofynion deddfwriaethol newydd yn rhoi cyfrifoldebau penodol i'r awdurdod lleol fonitro ac adolygu'r gwasanaeth a'r ddarpariaeth yn fwy manwl.
- Yr Adolygiad ADY wedi bod yn gyfle i adolygu'r holl ddarpariaeth er mwyn sicrhau'r deilliant "Bod plant sydd gydag ADY yn derbyn gwasanaeth o ansawdd gan dimau amlasiantaethol ac integredig ar draws Gwynedd, sy'n rhannu gwybodaeth, yn cynllunio ar y cyd, ac yn rhoi cyngor a gwybodaeth eglur i rieni"
- I wireddu hyn mae angen:
  - Symleiddio'r dull o gyflwyno'r gwasanaeth
  - Sicrhau cysondeb, ansawdd a darpariaeth ar draws y sir
  - Cyd weithio'n well efo'r asiantaethau gwahanol
  - Gwireddu potensial yr ysgolion arbennig

Os hoffech gyflwyno sylwadau ar y bwriad hwn gan Yr Awdurdod gofynnaf i chi gyflwyno eich sylwadau a'u hanfon ataf erbyn **diwedd y dydd, ddydd Mercher 11 Chwefror 2015** os gwelwch yn dda – i sylw Annie Sanson anniesanson@gwynedd.gov.uk

Byddaf yn adrodd ar y mater hwn i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ac i Gabinet Y Cyngor gan ofyn am eu cefnogaeth i'r bwriad.

Yn gywir

*Owen Owens*

Owen Owens
**Pennaeth Addysg (dros dro)**